Dechrau'n Deg Flying Start | Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council | Llywodraeth Cymru Welsh Government | GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Y Cwtsh Cymreig

## Darparwyr Gofal Plant — Ionawr 2026

## Blwyddyn Newydd Dda!

### Dyddiadau Pwysig Mis Ionawr

- Hen galan 10fed
- Diwrnod y dreigiau 16eg
- Penwythnos Gwylio adar yr ardd 23-25ain
- Diwrnod Santes Dwynwen 25ain

### BookTrust Cymru

**Amser Rhigwm Mawr Cymru**
Big Welsh Rhyme Time

Peidiwch âg anghofio cofrestru ar gyfer Amser Rhigwm Mawr Booktrust a gynhelir 2-6 Chwefror!

Bydd llawer o gynnwys newydd gwych yn Gymraeg a Saesneg gan gynnwys caneuon, rhigymau a fideos y gellir eu rhannu â theuluoedd a phlant.

Cofrestrwch yma

## Staff eisiau datblygu eu sgiliau Cymraeg?

Camau — Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar / Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare | cwlwm

Cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yw Cyrsiau Camau. Maent yn gwbl rhad ac am ddim ac yn hunanastudio, gan eich galluogi i ddysgu ar adeg sy'n addas i chi.

Caiff y cyrsiau eu cynnig mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac maent ar gael ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd.

Disgwylir i ddysgwyr gwblhau oddeutu un uned yr wythnos. Mae pob lefel yn cynnwys tua 30 awr o ddysgu.

Cliciwch i yma weld rhestr lawn o'r sgiliau newydd y byddwch yn eu hennill drwy'r cyrsiau.




Fideo CAMAU Video

mudiad meithrin

### Sgyrsiau Camau

Ydych chi'n cymryd rhan ar Camau trwy Blynyddoedd Cynnar Cymru? A fyddech chi'n hoffi gofod hamddenol a chyfeillgar i rannu syniadau, cyfnewid profiadau, a thyfu eich hyder Cymreig gyda'ch gilydd? Croeso i Sgyrsiau Camau - cymuned ar-lein newydd sbon i ddysgwyr Camau ddod at ei gilydd, siarad am ymarfer go iawn, ac ysbrydoli ei gilydd ar hyd y ffordd. Nid yw'n wers - mae'n sgwrs: cefnogol, dwyieithog, ac yn llawn syniadau ymarferol y gallwch eu defnyddio yn eich lleoliad ar unwaith.

Byddwch yn archwilio sut i wneud Cymraeg yn rhan o arferion bob dydd, cysylltu dysgu Camau â'ch cynlluniau, a chysylltu iaith, diwylliant a chymuned drwy Gynefin yn Ymarferol. Byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i'ch llais mewn Sgyrsiau Hyderus, defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn Iaith Trwy Chwarae, a dod â'r iaith yn fyw yn Amser Stori a Chân. Byddwch hefyd yn darganfod ffyrdd newydd o ymgysylltu â theuluoedd, goresgyn heriau, a rhannu adnoddau ac arfer da.

**Dydd Mawrth 6 Ionawr | 17:30 i 18:30 | Ar lein**
(dydd Mawrth cyntaf pob mis)

**Cofrestrwch nawr ar gyfer Sgyrsiau Camau: cymraeg@earlyyears.wales**

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Y Cwtsh Cymreig

**I deuluoedd For Families**

## GWYLIO ADAR YR ARDD




## THE BIG GARDEN BIRD WATCH




**IONAWR / JANUARY 23-25**

**Mwy o wybodaeth / More information:**








**ADERYN Y TO**
**SPARROW**




**DRUDWEN**
**STARLING**




**TITW TOMOS LAS**
**BLUE TIT**




**ADERYN DU**
**BLACKBIRD**

## A WELI DI...? CAN YOU SEE...?





**ROBIN GOCH**
**RED ROBIN**




**JI-BINC**
**CHAFFINCH**




**TITW MAWR**
**GREAT TIT**




**JAC Y DO**
**JACK-DAW**

## DEWCH I GANU! / COME AND SING!

## MI WELAIS JAC Y DO

Mi welais Jac y Do,
Yn eistedd ar ben to,
Het wen ar ei ben a dwy goes bren,
Ho-ho-ho-ho-ho-ho!



### Geirfa'r gân - Song Words

Mi welais - I saw
Jac y Do - Jack-daw
eistedd- to sit
ar ben to - on a roof
het wen - white hat
ar ei ben - on his head
dwy goes bren - two wooden legs